Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

AGGCC CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Arolygu cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu

## Cyngor Gwynedd

Hawdd ei ddeall

Mehefin 2016





Mae’r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg hefyd. Os hoffech gael copi mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â ni.

Wrth gyhoeddwyd, mae copi o bob adroddiad ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Swyddfeydd Cenedlaethol AGGCC**
**Swyddfeydd y Llywodraeth**
**Rhydycar**
**Merthyr Tydful**
**CF48 1UZ**

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu trwy’r canlynol:


**Ffôn:** 0300 7900 126
**Ebost:** cssiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.aggcc.org.uk

**Ffôn:** 0300 062 8163
**Ebost:** hiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

**Gwefan y Gydarolygiaeth:** www.arolygucymru.com


OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG27822 ISBN digidol 978-1-4734-6955-6



Mae’r ddogfen Hawdd ei Darllen hon yn hir iawn.





Mae hyn oherwydd ei bod yn bwysig i bobl ag anableddau dysgu gael yr holl wybodaeth am arolygiad eu gwasanaethau.



Os ydych chi am wybod am bethau da, edrychwch am y bocsys gwyrdd.



Os ydych chi am wybod beth sydd angen ei newid, edrychwch am y bocsys pinc.



# Cynnwys


Cyflwyniad



Sut wnaethon ni'r gwaith



Diolch

Cyngor Gwynedd

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr




# Cyflwyniad



Rydyn ni'n edrych ar wasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu.



Rydyn ni'n gwirio a yw cynghorau lleol yn helpu pobl ag anableddau dysgu i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau.



Rydyn ni'n gwirio a yw gwasanaetha gofal a chymorth yn:



- gweithio'n dda



- o safon dda




- diogel



Gofynnon ni gwestiynau am bob un o'r 22 cyngor lleol.




Aethon ni i weld 6 chyngor lleol.




Rydyn ni wedi ysgrifennu:




- adroddiad Cymru gyfan



- adroddiad ar gyfer pob un o'r 6 chyngor lleol




**Dyma'r adroddiad am Wynedd.**



Gweithion ni'n agos â:

- Phobl yn Gyntaf Cymru gyfan a'r fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan. Helpon nhw ni i wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.

- Gweithion ni'n agos â:




Phobl yn Gyntaf Cymru gyfan a'r fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan. Helpon nhw ni i wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.




- Gweithion ni'n agos â:



- Phobl yn Gyntaf Cymru gyfan a'r fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan. Helpon nhw ni i wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.




# Sut wnaethon ni'r gwaith




Roedden ni am gael yr atebion i 3 chwestiwn:




1. A yw Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd yn deall beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu a gofalwyr teuluol?

2. Pa mor dda y mae Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd am:




   - roi gwybodaeth, cyngor a helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau



- gwirio a oes angen cymorth ar rywun gan y Cyngor




- cynllunio gofal




3. A oes gan Gyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd weledigaeth glir, ac yw pobl eraill yn cefnogi'r weledigaeth honno?




Dyma beth wnaethon ni i gael yr atebion.

Edrychodd AGGCC ar Gyngor Gwynedd.





- Llenwodd Cyngor Gwynedd holiaduron i ni.




- Edrychon ni ar adroddiadau arolygiadau am wasanaethau yng Ngwynedd.




- Siaradodd Pobl yn Gyntaf Cymru gyfan a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan â'u haelodau a phobl eraill yng Ngwynedd. Dywedon nhw wrthon ni beth ddywedodd pobl




- Treulion ni bythefnos yng Ngwynedd. Gwnaethon ni:



  - edrych ar ffeiliau 20 o bobl



  - darganfod mwy am 8 o'r bobl hynny



  - siarad â staff, cynghorwyr, darparwyr gwasanaeth a sefydliadau gwirfoddol




  - mynd i sgwrs gan Gyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd am sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd

Edrychodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar y Bwrdd Iechyd.



- Cawson ni wybod am 4 person sy'n cael cymorth y mae gofal iechyd a chymdeithasol yn talu amdano.



  - Edrychon ni ar eu ffeiliau. Siaradon ni gyda gweithwyr proffesiynol. Gwnaethon ni gwrdd â'r bobl a'u teuluoedd.




  - Siaradon ni â staff iechyd a rheolwyr yn y Bwrdd Iechyd.




  - Cawson ni gyfarfod gyda'r tîm iechyd cymunedol.



- Rhoddodd y Bwrdd Iechyd a Chyngor Gwynedd gyflwyniad i ni am y ffordd y maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd.




# Diolch




Rhoddodd llawer o bobl eu hamser, eu help a'u syniadau. Rydyn ni am ddweud diolch i:



- bobl ag anableddau dysgu



- rhieni a gofalwyr




- staff a rheolwyr llinell



- darparwyr gwasanaeth



- cyrff gwirfoddol a phartneriaid eraill

# Cyngor Gwynedd

## Ynglŷn â Chyngor Gwynedd




Mae tua 122,000 o bobl yn byw yng Ngwynedd.




Rydyn ni'n credu bod tua 2,340 o oedolion ag anableddau dysgu yng Ngwynedd.




Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn gwybod am 567 o oedolion ag anableddau dysgu.




- Mae gan 243 o bobl reolwr gofal




- Gall 232 o bobl gael adolygiad, ond nid oes ganddyn nhw reolwr gofal




- Nid oes gan 92 o bobl reolwr gofal neu’n defnyddio gwasanaethau neu’n cael adolygiad.




- Mae 61 o bobl yn 65 oed neu'n hŷn



## Pethau da am yr hyn y mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud

Dyma rai pethau da am Gyngor Gwynedd:



- Mae rhai pobl yn cael cymorth da i stopio problemau rhag dod yn ddifrifol. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio 'cymorth gweithredol' a 'chymorth ymddygiad cadarnhaol' pan fydd angen llawer o gymorth ar bobl oherwydd eu hymddygiad.




- Ni all rhai pobl wneud eu penderfyniadau eu hunain. Mae rhai staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i wneud penderfyniadau ar eu rhan.




- Mae rhai staff yn gwneud gwaith da:



  - maen nhw'n helpu pobl i fod yn fwy annibynnol




  - maen nhw'n meddwl am bobl ag anableddau dysgu fel rhan o'u cymuned



  - maen nhw'n gwybod am y bywydau y mae pobl am gael ac maen nhw'n gwybod bod hyn yn wahanol i bob person



## Y darlun mawr




Mae gwasanaethau anableddau dysgu yn rhan o Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor.




Roedd angen i Oedolion, Iechyd a Llesiant wella ei rheolaeth ac arweinyddiaeth.  Roedd llawer o newidiadau wedi bod yn y trefniadau rheoli ac roedd y Pennaeth Gwasanaeth wedi bod yn gwneud y swydd am gyfnod byr yn unig.



Mae'r Cyngor am wneud gwasanaethau gofal a chymorth yn well. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud gwasanaethau anableddau dysgu yn flaenoriaeth. Mae’r flaenoriaeth wedi bod ar bobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol.




Mae'r Cyngor yn gwybod am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'n  gwneud newidiadau fel ei fod yn gwneud beth mae'r Ddeddf yn ei ddweud. Bydd angen iddo wneud mwy o newidiadau.



Mae'r staff yn gweithio'n galed. Maen nhw am wneud bywydau pobl yn well. Mae angen arweinwyr arnyn nhw sy'n eu cefnogi nhw.



Mae gan y Cyngor aelod o'r cabinet ar gyfer Oedolion ac Iechyd. Mae'r aelod cabinet am gael gwasanaethau anableddau dysgu gwell. Mae'r aelod cabinet am i'r Cyngor weithio'n well gyda'r Bwrdd Iechyd wrth gynllunio gwasanaethau.





Mae'r Cyngor wedi cytuno i wario £3.18 miliwn i ddatblygu safle Frondeg yng Nghaernarfon.




Nid yw'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'i gilydd yn dda:





- nid ydyn nhw'n cwrdd yn rheolaidd



- nid ydyn nhw'n rhannu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol



## Y dyfodol



Mae'r Cyngor yn meddwl am ddyfodol:



- gwasanaethau dydd



- gwasanaethau cymorth



- gofal seibiant



- tai â chymorth




- Gofal Iechyd Parhaus (pan fydd iechyd yn talu am ofal person)



- lleoliadau oedolion (pan mae person yn byw gyda gofalwr sy’n cael ei dalu fel rhan o'i deulu)





Nid yw'r Cyngor wedi siarad â phobl ag anableddau dysgu, gofalwyr teuluol neu ddarparwyr gwasanaeth am hyn. Nid yw staff yn siŵr beth sy'n digwydd. Mae rhai pobl yn poeni am eu gofal a'u cymorth yn y dyfodol.




Ysgrifennodd y Cyngor gynllun ar gyfer 2011-2016 ar gyfer dewis a phrynu gwasanaethau. Mae wedi adeiladu tai newydd. Mae wedi gweithio gyda darparwyr gwasanaeth annibynnol.

Ond nid yw'r Cyngor wedi cael gwybod am y bywyd y mae pobl ag anableddau dysgu ei eisiau.



Nid yw wedi edrych ar gynlluniau pobl i weithio allan pa wasanaethau y bydd eu hangen arnyn nhw yn y dyfodol.

Nid yw wedi gofyn i bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol am eu syniadau ar gyfer y dyfodol.



Mae'r Cyngor yn ysgrifennu cynllun newydd ar gyfer dewis a phrynu gwasanaethau. Ond nid ydyn nhw wedi siarad â phobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr teuluol neu ddarparwyr gwasanaeth.



## Cydweithio



Mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio'n dda yn y Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol. Mae hyn yn haws oherwydd:



- mae’r timau yn yr un adeilad




- mae’r timau yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu pwy fydd rheolwr gofal person



- gall staff iechyd ddefnyddio system gyfrifiadurol y Gwasanaethau Cymdeithasol



Sylwodd staff iechyd a gofal cymdeithasol fod mwy o bobl ag anableddau dysgu yn cael dementia.





Felly trefnon nhw hyfforddiant i’r staff sy'n eu cefnogi nhw.



Mae'r Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol a'r bobl sy'n gyfrifol am ddewis a phrynu gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd. Ond mae angen iddyn nhw wneud mwy o hyn.

Mae angen i'r Cyngor gael cynllun ar gyfer gweithio gyda darparwyr gwasanaeth.




Mae angen cynllun ar gyfer dewis a phrynu gwasanaethau.

Mae'r Cyngor yn dweud ei fod yn cynllunio sut y bydd yn prynu gwasanaethau.



Mae rhai darparwyr gwasanaeth yn credu bod y Cyngor yn gwneud adolygiadau pobl i arbed arian. Nid ydyn nhw'n credu bod y Cyngor yn gwneud adolygiadau i helpu pobl i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau.



Ond mae rhai darparwyr gwasanaeth yn deall bod y Cyngor am gael ffyrdd gwahanol o gefnogi pobl.




## Cynlluniau pobl




Mae pobl yn dod ymlaen yn dda gyda'u rheolwr gofal. Mae gan rai pobl gynlluniau da ac maen nhw'n cael cymorth da.




Mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd ac mae rhai pobl yn cael cymorth ardderchog.



Mae rheolwyr gofal yn gofyn i bobl "beth sy'n bwysig i chi?" pan maen nhw’n gwirio pa gymorth sydd ei angen ar bobl.



Mae rhai pobl yn cael cymorth da mewn gwasanaethau dydd. Mae hyn oherwydd bod y staff yn gwneud y pethau y gwnaethon nhw eu dysgu ar hyfforddiant 'cymorth gweithredol'.




Nid yw cynlluniau ac adolygiadau pobl bob amser yn gyfredol.

Mae rhai wedi dyddio ers mwy na blwyddyn.



Mae hyn yn golygu na all y Cyngor fod yn siŵr bod pobl yn cael y cymorth iawn pan fyddan nhw ei angen.



Mae'n golygu na all y Cyngor fod yn siŵr ei fod yn gwario ei arian yn dda.



Mae adolygiadau pobl fel arfer yn cael eu gwneud yn dda.

Nid yw rhai pobl yn siŵr pa gymorth y maen nhw’n ei gael a pham y maen nhw’n ei gael.




Mae rhai staff yn cael gwybod beth mae pobl yn dda am wneud, y bywyd y maen nhw ei eisiau, a pha gymorth sydd ei angen arnyn nhw.

Gweithiodd staff iechyd hefyd yn agos â'r bobl hyn.



Mae rhai pobl ifanc yn cael cymorth da wrth iddyn nhw ddod yn oedolion.




Mae gan rai gynllun gofal sy'n eu helpu nhw i ddysgu sgiliau newydd, a dod yn fwy hyderus ac yn fwy annibynnol.




Ond nid yw rhai pobl ifanc yn cael y cymorth i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau pan fyddan nhw’n dod yn oedolion.



Mae gan y Cyngor ffordd newydd i gefnogi pobl ifanc wrth iddyn nhw ddod yn oedolion



Mae cyfarfodydd i gael gwybod beth y bydd angen i bobl yn eu harddegau ei wybod pan fyddan nhw’n dod yn oedolion.



Mae staff iechyd yn meddwl bod hyn yn gweithio'n dda.



Mae rhai gwasanaethau dydd yn dweud nad ydyn nhw’n gwybod digon am hyn ac nid ydyn nhw’n rhan ohono.




Mae 36 o bobl ag anableddau dysgu yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol. Mae hyn yn gweithio'n dda i rai pobl. Ond roedd rhai pobl yn ei chael yn anodd cael gweithwyr cymorth.




Nid yw'r ffordd y mae'r Cyngor yn trefnu Taliadau Uniongyrchol wedi gweithio'n dda.



Mae set newydd o reolau ar gyfer trefnu Taliadau Uniongyrchol. Mae'r Cyngor, gofalwyr teuluol a darparwyr gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd i ysgrifennu'r rheolau newydd.





Nawr mae angen i'r Cyngor wneud yr hyn y mae'r rheolau newydd yn ei ddweud.



## Cael y gwasanaethau cywir



Weithiau mae angen i bobl newid eu cymorth. Gall y newidiadau fod yn araf iawn. Gall fod yn anodd cael y cymorth iawn oni bai bod gwasanaeth ar gael yn barod sy'n gallu rhoi’r cymorth hwnnw i chi.



Er enghraifft, roedd rhywun am ymuno â grŵp cerdded, ond nid oes grŵp cerdded ar gyfer pobl ag anableddau dysgu gan Wynedd. Nid oedd y rheolwr gofal yn siŵr beth i'w wneud. Felly nid oedd y person yn gallu ymuno â grŵp cerdded.





Mae rhai pobl yn byw mewn cartrefi gofal nad ydyn nhw’n rhoi’r cymorth iawn iddyn nhw.



Bydd y Cyngor yn eu symud nhw i gartref gofal arall pan fydd lle. Ond nid yw'r Cyngor wedi meddwl am ffyrdd i'w cefnogi nhw lle maen nhw’n byw nawr.




Mae gwirfoddoli a gwaith yn bwysig i bobl ag anableddau dysgu.



Mae rhai pobl yn gweithio'n galed mewn gwasanaethau dydd, ond yn cael ychydig neu ddim tâl.




Mae angen i'r Cyngor ddiogelu hawliau pobl pan fyddan nhw mewn gwasanaethau dydd neu’n gweithio. Mae angen iddo eu helpu i fod yn fwy annibynnol.



Mae rhai gwasanaethau yn dda. Mae’r rhan fwyaf o bobl yn cael bywyd gwell oherwydd y gwasanaethau y maen nhw’n eu defnyddio.




Ond nid yw rhai gwasanaethau yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu i ddysgu sgiliau newydd, a dod yn fwy hyderus ac yn fwy annibynnol.



Mae gofalwyr teuluol am gael gwell gofal seibiant.



**Staff**



Mae rheolwyr gofal yn gweithio'n galed. Maen nhw'n dod ymlaen yn dda gyda phobl ag anableddau dysgu, gofalwyr teuluol a staff eraill.



Os oes tîm cymunedol da, yna bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael gwasanaeth da.



Mae rheolwyr gofal a darparwyr gwasanaeth yn gwneud yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu mewn hyfforddiant 'cymorth gweithredol'.



Maen nhw hefyd yn gwneud yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu am 'gymorth ymddygiad cadarnhaol'. Er enghraifft, os yw person yn ofidus neu'n ddig.



**Cael llais**



Mae'r staff a'r rheolwyr cymunedol am i bobl ag anableddau dysgu gael llais cryf. Maen nhw'n gwrando ar bobl. Maen nhw'n cefnogi pobl i ddweud eu dweud.

nwaaa Independent Advocacy Service

Mae gwasanaeth eiriolaeth da sy'n cefnogi pobl i ddweud eu dweud.



Mae angen i'r Cyngor siarad gyda phobl ag anableddau dysgu a gofalwyr teuluol a gwrando arnyn nhw.



Mae angen iddyn nhw siarad am eu syniadau ar gyfer y dyfodol, nid am yr hyn sy'n newid nawr yn unig.



Cawson ni gyfarfod a daeth 20 o bobl ag anableddau dysgu.



Mae rhai o'r bobl hyn yn mynd i wasanaeth dydd Manton. Roedden nhw wedi cael gwybod bod Manton yn cau.



Nid oedd eu gofalwyr teuluol a'r gwasanaeth eiriolaeth wedi cael gwybod hyn. Yna cawson nhw wybod efallai na fyddai'n cau. Mae pobl yn drysu ac yn gofidio.




Weithiau, mae'r Cyngor yn siarad â phobl pan mae'n cynllunio i newid gwasanaeth. Er enghraifft, gwnaeth y Cyngor yn siŵr bod pobl yn gallu cael dweud eu dweud am y newidiadau i Frondeg.




Mae'r Cyngor yn gwella wrth ddatrys cwynion. Mae'r Cyngor yn meddwl am gwynion ac am sut y gall wneud gwasanaethau yn well.




**Hawliau**



Mae rhai pobl ag anableddau dysgu yn cael eu cefnogi i wybod a defnyddio eu hawliau dynol. Mae staff yn trin pobl â pharch.




Mae rhai pobl yn cael cymorth i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau. Ond nid yw hyn yn wir am bawb.



Mae staff eisiau mwy o gyngor gan reolwyr pan fyddan nhw'n gorfod gwneud penderfyniadau anodd.




Weithiau mae Gofal Iechyd Parhaus yn talu am ofal pobl ag anableddau dysgu.



Dywedodd rheolwyr gofal nad yw pobl ag anableddau dysgu yn cael eu trin yr un fath â phobl hŷn pan fyddan nhw'n gofyn am Ofal Iechyd Parhaus.




## Cyfathrebu




Gall y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg gael gwasanaethau yn Gymraeg. Ond mae rhai siaradwyr Cymraeg yn byw mewn cartrefi gofal lle mae’r rhan fwyaf o bobl yn siarad Saesneg.




Mae rhai darparwyr gwasanaeth yn ei chael yn hawdd cael staff sy'n siarad Cymraeg. Mae rhai yn ei chael yn anodd.




Mae angen i'r Cyngor ei gwneud yn haws i gael gwybodaeth a chyngor. Nid oes llawer o wybodaeth ar wefan Cyngor Gwynedd.




## Cadw pobl yn ddiogel



Mae’r rhan fwyaf o bobl yn cael eu cadw'n ddiogel rhag esgeulustod a cham-drin. Weithiau mae’r Cyngor, iechyd, yr heddlu a darparwyr gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda.



Mae staff yn y Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol yn gweithio'n gyflym i gadw pobl yn ddiogel.



Efallai y bydd angen cyfyngu ar ryddid rhai pobl i'w cadw nhw'n ddiogel. Ond mae rheolau am gyfyngu ar ryddid pobl, ac mae’n rhaid i wasanaethau ddilyn y rheolau.





Weithiau mae drysau yn cael eu cloi mewn gwasanaethau dydd a lle mae pobl yn byw. Mae angen i'r Cyngor wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n torri'r rheolau.



Mae rhestr aros ar gyfer penderfyniadau am gyfyngu ar ryddid pobl.



Mae angen i'r Cyngor wella'r pethau hyn **ar frys**:




- ysgrifennu i lawr beth sy'n digwydd mewn cyfarfodydd am a yw person yn ddiogel



- dweud wrth deuluoedd beth sy'n digwydd



- cynnwys teuluoedd mewn gwneud yn siŵr bod rhywun yn ddiogel



- gwirio os yw gwaith yn cael ei wneud yn dda



- gwybod pa reolwyr ac arweinwyr sy'n gyfrifol am gadw pobl yn ddiogel



## Gofalwyr teuluol



Mae gofalwyr teuluol yn cael cynnig asesiad i wirio a oes angen cymorth arnyn nhw. Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr teuluol yn dewis peidio â chael asesiad.



Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr teuluol yn dod ymlaen yn dda gyda'r rheolwyr gofal ac yn hapus gyda'r cymorth y maen nhw'n ei gael. Dywedon nhw fod y rheolwyr gofal yn gwneud beth maen nhw'n dweud y byddan nhw'n ei wneud.

Mae llawer o ofalwyr teuluol yn defnyddio'r gwasanaeth Allgymorth i Ofalwyr.




Nid yw'r Cyngor yn siarad â gofalwyr teuluol am y dyfodol.

## Beth mae angen i Gyngor Gwynedd ei wneud



Mae angen i Gyngor Gwynedd wneud cynlluniau da ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn golygu:




- Mae angen i'r Cyngor wybod beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu.



- Rhaid i arweinwyr y Cyngor arwain pethau.



- Rhaid i'r Cyngor weithio'n agos gyda phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol. Bydd angen cymorth ar rai pobl gan wasanaethau eiriolaeth i wneud hyn.



- Rhaid i'r Cyngor weithio'n agos â darparwyr gwasanaeth.



- Rhaid i'r Cyngor gynllunio gyda'r Bwrdd Iechyd sut i ddewis a phrynu gwasanaethau gyda'i gilydd yn y dyfodol.



- Mae angen i'r Cyngor gael ffordd i wneud yn siŵr ei fod yn cadw pobl yn ddiogel.



- Mae angen i'r Cyngor wirio ei fod yn cefnogi hawliau pobl y gallai fod angen cyfyngu ar eu rhyddid.



- Mae angen i'r Cyngor wneud yn siŵr bod staff yn cael y cyngor, y cymorth a'r oruchwyliaeth iawn.




**Mae angen i'r Cyngor gael ffordd i wneud yn siŵr ei fod yn cadw pobl yn ddiogel.**

**Mae angen i'r Cyngor wirio ei fod yn cefnogi hawliau pobl y gallai fod angen cyfyngu ar eu rhyddid.**




**Mae angen i'r Cyngor wneud yn siŵr bod staff yn cael y cyngor, y cymorth a'r oruchwyliaeth iawn.**

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr




Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhedeg gwasanaethau iechyd yng Ngwynedd.



Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhedeg gwasanaethau iechyd sydd i bobl ag anableddau dysgu yn unig, gan gynnwys:



- tîm cyswllt iechyd o 13 o staff, gyda chymorth gan bobl ag anableddau dysgu. Mae'r tîm cyswllt iechyd yn gwneud yn siŵr bod pobl ag anableddau dysgu:




  - â ffordd o fyw mwy iach



  - yn cael gofal iechyd da gan feddygon, ysbytai a gwasanaethau iechyd eraill




- tîm iechyd cymunedol



- gwasanaeth anghenion cymhleth i bobl sydd angen llawer o ofal a chymorth



- gwasanaeth therapi galwedigaethol i unrhyw un



Mae'r tîm iechyd cymunedol yn rhan o'r Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol.




Mae gan y Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol 3 swyddfa yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Mae'r tîm iechyd cymunedol yn rhan o'r Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol.




Mae gwasanaethau iechyd anableddau dysgu yn canolbwyntio ar:



- pobl sy'n mynd i drwbl gyda'r gyfraith



- pobl sydd angen llawer o ofal a chymorth



- pobl sydd angen llawer o gymorth oherwydd eu hymddygiad



- pobl sydd angen gwasanaethau iechyd meddwl



## Pethau da am y Bwrdd Iechyd



- Mae'r tîm cyswllt iechyd yn gwneud gwaith ardderchog. Mae ganddo nyrs cyswllt iechyd meddwl sy'n ceisio gwneud pethau'n well i bobl ag anableddau dysgu pan fyddan nhw'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl.




- Mae staff yn adnabod pobl yn dda ac yn gwybod beth sydd eu hangen arnyn nhw.



- Mae staff gofal iechyd a chymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.




- Mae gan staff syniadau da am gefnogi pobl pan na allan nhw ddod o hyd i'r gwasanaeth iawn.



- Mae staff yn y gwasanaeth anghenion cymhleth yn gweithio'n galed i helpu pobl i aros yn eu cartref.



**Cael y gwasanaethau iawn yng Ngwynedd**



Ni all rai pobl gael y cymorth iawn yng Ngwynedd, er enghraifft:



- pobl ag anghenion cymhleth



- pobl sydd angen llawer o gymorth oherwydd eu hymddygiad



- pobl o dan 65 oed sydd angen gofal nyrsio



- pobl sydd angen gofal seibiant




Gall hefyd fod yn anodd cael y pethau hyn:



- yr offer cywir;




- Gofal Iechyd Parhaus




- cymorth yn y Gymraeg ar gyfer pobl sy'n siarad Cymraeg





y staff cymorth cywir i bobl sydd angen llawer o gymorth oherwydd eu hymddygiad.



Edrychon ni ar ffeiliau achos 4 o bobl. I 3 o'r bobl hyn roedd wedi cymryd mwy o amser nag y dylai i gael y cymorth cywir.



Roedd un oedolyn o dan 65 oed wedi gorfod gadael Gwynedd i symud i gartref nyrsio.




Mae hyn oherwydd ei fod yn anodd dod o hyd i gartrefi nyrsio i bobl ag anableddau dysgu sydd o dan 65 oed.




Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wybod pa wasanaethau sydd eu hangen  ar bobl ag anghenion anableddau dysgu. Yna gallan nhw gynllunio i gael y gwasanaethau iawn yng Ngwynedd.



## Cael llais



Mae staff yn helpu pobl i ddweud eu dweud. Mae'r tîm cyswllt iechyd a'r staff seicoleg yn gofyn i bobl beth yw eu barn am eu gwasanaeth.



Mae angen i'r tîm iechyd ofyn i bobl am eu barn am eu holl wasanaethau.



## Cydweithio





Mae angen i'r Bwrdd Iechyd a'r tîm iechyd gyfathrebu'n well.



Gall fod yn anodd i staff weithio gyda'i gilydd oherwydd:




- mae Gwynedd yn ardal fawr iawn



- mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn defnyddio systemau cyfrifiadurol gwahanol



Mae'r tîm cyswllt iechyd wedi gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu a staff iechyd. Maen nhw wedi gwneud gwaith ar:



- cynllunio i adael yr ysbyty



- cael y gofal a'r cymorth cywir yn yr ysbyty



- archwiliadau iechyd blynyddol gan Feddygon Teulu




- gwybodaeth hawdd ei defnyddio am y Ddeddf Iechyd Meddwl



- hyfforddiant staff



## Staff




Mae staff yn cael goruchwyliaeth. Ond weithiau mae'r oruchwyliaeth gan rywun nad yw'n gwybod am anableddau dysgu. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud rhywbeth am hyn.




## Cynlluniau ar gyfer y dyfodol



Nid yw'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol yn glir. Nid oes cynllun ar gyfer y dyfodol.



Weithiau, mae'r Bwrdd Iechyd yn meddwl am beth fydd ei angen ar bobl yn y dyfodol.



Weithiau mae'n gwneud cynllun iddyn nhw gael y gwasanaethau cywir. Ond y rhan fwyaf o'r amser nid yw hyn yn digwydd.



Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wrando ar bobl ag anableddau dysgu, gofalwyr teuluol a staff iechyd pan maen nhw'n meddwl am weledigaeth ar gyfer y dyfodol.



Nid yw pobl ag anableddau dysgu a gofalwyr teuluol yn cael llais mewn gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol.


Mae wedi bod yn anodd cynllunio oherwydd:




- mae pobl sy'n gwneud swyddi uwch reolwyr pwysig yno am gyfnod byr yn unig



- nid yw neb yn casglu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl



- nid yw neb yn gwirio faint mae gwasanaethau yn eu costio




## Cadw pobl yn ddiogel




Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm diogelu i wneud yn siŵr bod pobl yn ddiogel.
Mae'r Bwrdd yn gwario mwy o arian ar y tîm.




Mae staff iechyd yn gwybod beth mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud i gadw pobl yn ddiogel.




Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwirio a yw pobl yn ddiogel.

# Beth sydd angen i'r Bwrdd Iechyd ei wneud






- Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gynllunio a gwirio gwasanaethau anableddau dysgu. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wybod ei fod yn gwario'i arian ar y pethau cywir. Mae hyn yn golygu bod angen i'r Bwrdd Iechyd wybod beth sydd ei angen ar bobl nawr a beth fydd ei angen arnyn nhw yn y dyfodol.




- Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gynllunio gwasanaethau i:



  - bobl sydd angen llawer o gefnogaeth oherwydd eu hymddygiad



- pobl sydd angen llawer o ofal a chymorth



- gofal seibiant



- gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu o dan 65 oed sydd angen gofal nyrsio



- pobl hŷn ag anableddau dysgu



- pobl ag awtistiaeth



- Rhaid i'r Bwrdd Iechyd wneud yn siŵr bod staff iechyd yn gwrando ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud am wasanaethau. Yna mae’n rhaid iddo ddefnyddio’r hyn y mae pobl yn ei ddweud i wneud gwasanaethau'n well.



- Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud yn siŵr bod staff yn gwybod ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol.



- Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda Chyngor Gwynedd i:




    - drin pobl yn deg pan fyddan nhw’n gofyn am Ofal Iechyd Parhaus



- gwneud yn siŵr bod pobl yn cael yr offer cywir pan fydd ei angen arnyn nhw



- Dylai'r Bwrdd Iechyd wirio bod staff yn cael goruchwyliaeth dda.




- Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wrando ar bobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a staff iechyd pan maen nhw'n meddwl am weledigaeth ar gyfer y dyfodol.




**Mae gan y Bwrdd Iechyd bythefnos i ysgrifennu cynllun gwella yn dweud sut y byddan nhw'n gwneud y pethau hyn.**

**Rhaid i'r Bwrdd Iechyd anfon y cynllun i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.**




**Rhaid i'r cynllun ddweud**




- **beth fydd y Bwrdd Iechyd yn ei wneud am y pethau yn yr adroddiad hwn**




- **pryd fyddan nhw'n ei wneud**



**Dylai'r Bwrdd Iechyd wirio nad yw'r un problemau yn digwydd yn rhannau eraill o'r Bwrdd Iechyd.**

**Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddweud wrth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru pan mae wedi gwneud yr hyn y mae'r cynllun yn ei ddweud.**